




Croeso i Ysgol Eifionydd.

Rydym yn credu mewn addysg ragorol a chynnig profiadau eang i ddisgyblion.

+5 TGAU A* i C yn cynnwys Mathemateg a Chymraeg/Saesneg



Trothwy Lefel 2+

Eleni gwelwyd un o ganlyniadau gorau y Sir gan ddisgyblion Ysgol Eifionydd. Mae Llywodraeth Cymru yn ystyried Trothwy Lefel 2+ sef 5 TGAU neu mwy A* i C neu gymhwyster cyffelyb yn cynnwys TGAU Mathemateg a Chymraeg/Saesneg yn un o ddangosyddion pwysicaf o lwyddiant academiaidd ysgol.

"Mae Ysgol Eifionydd yn rhoi cyfle i chi drïo gwahanol bethau... cewch ddysgu dringo ar y wal ddringo neu chwarae pêl droed, rygbi, pêl fasged, dodge ball neu pêl rhwyd a gymnasteg. Rwy'n mwynhau y gwersi yn fawr iawn. Ar ôl ysgol mae nifer o glybiau chwaraeon a chlwb gwaith cartref." **Bethan Blwyddyn 7**

"Ers dechrau y tymor rwyf innau a disgyblion yr ardal wedi profi nifer o weithgareddau a gwersi gwych. Mae'r ysgol yn cynnig amrywiaeth eang o fwyd blasus. Ceir cinio cynnes neu oer amser cinio ac amser egwyl gellir gloddesta ar bap bacwn neu dôst." **Aedan Blwyddyn 7**

"Rwy'n hoff o Ysgol Eifionydd. Mae'n ysgol dda iawn. Mae yna lawer o bobl y gallwn fynd i'w gweld os oes pryder, yn arbennig yr athrawon neu'r bydis. Mae gan bob plentyn ym mlwyddyn 7 bydi i'w helpu os oes angen." **Chloe Blwyddyn 7**



**Pencampwyr
pêl droed
Cymru X3**

Diwrnodau o hwyl a dysgu.

Cyn gwyliau'r haf cafodd disgyblion blwyddyn 5 gyfle i gymryd rhan mewn nifer o weithgareddau addysgol ac hwyliog. Gwelwyd y plant yn datrys dirgelwch twyll ariannol yn y gwersi Gwyddoniaeth, dathlu cwpan y byd yn aml ieithog, creu darn o gelf yn seiliedig ar gerdd, dysgu'r '12 bar blues', coginio neu adeiladu cas pensilau a chwarae nifer o gemau iaith. Byddwn yn croesawu yr un disgyblion nôl ym mlwyddyn 6 ar gyfer ein diwrnod agored a sesiynau blasu yn ddiweddarach yn y flwyddyn. Mae'n ffrwd ail gynnal dyddiau yn benodol ar gyfer blwyddyn 5 yn dilyn llwyddiant trefniadau y llynedd.

